CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar y 12/3/2014 yn Festri Porthyrhyd.

Minutes of the meeting of Llanddarog Community Council held on the 12/3/2014 at the Vestry Porthyrhyd

Presennol / Present:

Cllr R Jones , Cllr John Howells, Cllr J Youens, , Cllr Roy Owen ,
Cllr Vilna Thomas, Cllr Huw V Williams, Cllr Terry Jones ,
Cllr S Evans,Cllr I Thomas, Cllr Robert Newell

1.0 Ymddiheuriadau / Apologies:
Derbyniwyd ymddiheuriad wrth y Cynghorwr Wyn Evans
/ Apologies were received from Cllr Wyn Evans,

2.0 Adroddiad y Cadeirydd. / Chairmans Report.

Croesawodd y Cadeirydd pawb i Gyfarfod Mis Mawrth 2014 /
The Chairman welcomed everyone to the March 2014 meeting. Esboniodd bod dim cyfarfod wedi ei gynnal ym Mis Chwefror oherwydd y tywydd difrifol a dim golau na gwres yn Festri Porthyrhyd. / The Chairman welcomed everyone to the March meeting and explained that the February meeting had been postponed due to the bad weather and that the electricity supply to Porthyrhyd Festry had been affected .

Yn ystod y Ddau Fis diwethaf roedd wedi cael gwahoddiad i ginio Cor Mynyddmawr ond wedi methu mynd , roedd wedi anfon cyfraniad. Hefyd roedd wedi cael gwahoddiad i gyngerdd yn Neuadd Porthyrhyd at yr Eisteddfod.
Derbyniodd wahoddiad i gyfarfod grwp y Gwendraeth – sefydliad y Merched ar y 20ed Mawrth 2014
Bu y Cyng Terry Jones a hi mewn dau gyfarfod o Bwyllgor Apel yr Eisteddfod . Roedd yr arian yn dod mewn yn dda.

/ During the month she was invited to The Mynydd Mawr Choir's annual dinner but unfortunately could not attend , she had sent a donation. She was also invited to a concert to raise money for the Eisteddfod at the Neuadd Fach Porthyrhyd . She had also received an invite to attend the Gwendraeth womens Group on the 20th March 2014.

She informed that along with Cllr Terry Jones she had attended two Eisteddfod appeal committee meetings . Donations to the fund were coming in well.

3.0 Cadarnhau Cofnodion cyfarfod Mis Ionawr 2014 y Cyngor / Confirmation of the accuracy of the minutes for the Council's January 2014 meeting .

Cynigiodd, y Cyng Terry Jones ac eiliwyd gan, Cyng Selwyn Evans a cytunodd pob aelod fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. /
It was proposed by Cllr Terry Jones and seconded by Cllr Selwyn Evans and all members agreed that the minutes of the last meeting were correct

4.0 Datganiadau o fuddiannau personol / Declaration of personal interest.
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad / No declaration of interest was received

5.0 Materion yn Codi o'r cyfarfod diwethaf / Matters arising from the previous meeting

1. **Carreg Goffa Mynyddcerrig . / Mynyddcerrig memorial plaque**
   Roedd y garreg heb ei gosod eto ond fe fydd yn cael ei gosod ar ol peintio'r cylch o'i amgylch / The stone has not been placed as of yet but this will be done after the surround has been painted.

2. **Bwrdd Gwybodaeth Llanddarog/Mynyddcerrig - Notice Board**
   Dywedodd y clerc ei fod ef a'r Cyng Huw V Williams wedi edrych ar y safle ac oherwydd agosrwydd y pyst at fur y White Hart roeddent o'r farn y gallai symud un o'r pyst achosi problem. Awgrymwyd y dylai'r bwrdd gwybodaeth gael ei wneud yn arbenig i fod yr un maint a'r lled rhwng y pyst presennol .
   Hefyd yn ystod y tywydd gwyntog roedd rhan o fwrdd gwybodaeth Mynyddcerrig wedi chwythu i ffwrdd ac nid oedd y bwrdd mewn cyflwr da. Felly awgrymwyd y dylai'r bwrdd newydd (sydd wedi ei brynu) fynd i Mynyddcerrig ac i brynu bwrdd arall newydd i Llanddarog (i'r mesur Cywir) er mwyn osgoi symud y pyst.
   Dywedodd y clerc fydd cyn bo hir angen bwrdd newydd yn Porthyrhyd hefyd. Cytunodd y cyngor gydar awgrymiadau a gofynwyd i'r clerc i'w drefnu.
   / The clerk informed that along with Cllr Huw V Williams he had inspected the Llanddarog Notice Board Location and that they were of the view that because of the proximity of the White Hart boundary wall ,moving the post and reinstallation could cause a probem .
   Also during the recent stormy weather part of the Mynyddcerrig Notice Board had come off and that the notice board was in need of replacement . It was recommended that the new board should be located at Mynyddcerrig and that a made to measure board should

replace the existing board at Llanddarog village to avoid moving the posts.
The clerk also informed that he had inspected the Porthyrhyd Board and that this board was also in need of replacing . The council agreed to the suggestions and asked the clerk to take appropriate action

3 Yn y cyfarfod diwethaf derbyniwyd cwestiwn 'a oedd y Fan Camera ym Mhorthyrhyd yn gyfreithlon oherwydd bod dim arwydd camera ar y ffyrdd a oedd yn dod mewn i'r pentref'. Roedd y clerc wedi cysylltu gyda'r heddlu ac wedi derbyn gwybodaeth bod dim rhaid ymhellach gael arwyddion camera i Fan Camera mewn unrhyw leoliad. / At the last meeting a question was raised with regard to the validity of the Speed Van in Porthyrhyd as there were no camera warning signs on the approaches to the village. The clerk informed that he had contacted the Police and was informed that camera signs were no longer a requirement for the placement of speed detection van.

4. Yn dilyn cwestiynau gyda'r cyngor yn y cyfarfod diwethaf am adeiladau yn y gymuned sydd yn wag ac wedi ei gadael, derbyniwyd e bost canlynol wrth y swyddog cynllunio Mr Ceri Davies /Further to questions raised by council with regard to derelict property in the community , the following e mail was received from Mr Ceri Davies Planning officer:-

''I would inform that there is an officer in Housing and Public protection Dept who deals with bringing unused properties back into beneficial use. But from a planning perspective, if a house derelict , in the sense of ruinous, then it may be beyond the scope of being supported for any residential use. However each case will need to be looked at on its own merits. If the property is becoming an eyesore and is clearly visible to the public eye, then the LPA could potentially issue a Section 215 Notice on the landowner(if known) to remedy the situation. For this purpose, if you have any specific cases in mind I would advise you to contact the Authority's Enforcement Officer, who can undertake a site inspection and investigate matters accordingly.''

Gofynnwyd i'r cynghorwyr ddod a rhestr i'r cyfarfod nesaf. / Councillors were requested to bring a list to the next meeting.

5 . Statws Cynllunio Fferm Pantyffynon Farm usage and planning status

Yn dilyn e bost wrth y clerc ynglyn ar mater uchod derbyniwyd yr ateb canlynol drwy e bost wrth Mr Ceri Davies y swyddog Cynllunio / Further to the clerks email to CCC with regard to the above matter the Following e mail reply was received from Mr Ceri Davies Planning Officer.
''Please be advised that the LPA is in the process of investigating the various uses operating from this site and following a previous site inspection a number of unauthorised uses were identified; the site owner has indicated to the authority that he wishes to work with the authority in order to regularise the situation. The matter has been

referred to the authority's enforcement secton who will be investigating the matter fully; I have advised the enforcement officer to keep you updated on the outcome of those investigations.''

6.0 Gohebiaeth/ Correspondence

1.CCC Adran Goleuadau Cyhoeddus / Public Lighting Section

Yn danfon gwybodaeth y bydd cost golau troedffyrdd CC Llanddarog am 2014/5 yn £3679.07 .
inform that the' Footway lighting' charges including maintenance for Llanddarog CC in 2014/5 will be £3679.07

2 . Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police Commissioner

Yn diolch yn fawr iawn am gymeryd rhan yn yr arolwg a gyfrannodd at fy ystyriaethau o ran gosod y praesept treth gyngor ar gyfer 2014-15. Ar ôl ystyried y fath safbwyntiau, mae yn argymell fod y praesept yn codi o 2.1%, sydd yn gyson gyda gyfradd chwyddiant ac yn llai na chodiad praesept llynedd o 3.9%. Bydd ei gynnig ar gyfer y praesept yn mynd o flaen Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ddydd Gwener (24 Ionawr). / Thanks the Council for taking part in the survey that contributed to his thoughts on setting the 2014-15 council tax precept. After considering such views, he is recommending a 2.1% rise, in line with inflation and lower than last years rise of 3.9%. His precept proposal will go to the Dyfed-Powys Police and Crime Panel this Friday (January 24).

Mae'r cynnig yn golygu y bydd eiddo cyfartalog D yn cyfrannu £210.60 tuag at blismona yn 2014-15 (£206.28 yn 2013-14). Bydd y praesept yn rhoi cyllideb Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer 2014-15 yn £97.894 miliwn. / The proposal means that an average D property will contribute £210.60 to policing in 2014-15 (£206.28 in 2013-14). The precept will help deliver a 2014-15 Dyfed-Powys Police budget of £97.894m.

3. Cllr Kevin Madge Arweinydd Sir Gaerfyrddin /Leader of Carmarthenshire County Council

Yn danfon llythyr a Pecyn Gwybodaeth er mwyn egluro'r sefyllfa mewn perthynas i Trosglwyddo Asedau. Yn bennaf mae'r llythyr yn trafod trosglwyddiadau o safleodd Chwaraeon , Safleoedd hamdden a Pharciau . Mae'r llythyr yn ceisio esbonio y rhesymau am yr argymhellion ac am y sefyllfa arianol sydd yn gwynebu y Cyngor Sir./ sends a letter and information pack to clarify the County Council's position in relation to proposed Asset Transfers. In the main the letter refers to asset transfers associated with sports, parks and leisure facilities . The letter explains the reason for the proposals and financial cut backs facing the County Council.

4. Gwrandawiad Archwiliad Cynllun Datblygu Sir Gaerfyrddin./ Carmarthenshire Local Development Plan Examination Hearings

Mae'r Swyddog Rhaglen Mr D Jones yn danfon gwybodaeth y bydd y gwrandawiad cyntaf yn cael ei gynnal yn Neuadd y Dref , Llanelli ar y 4ydd o Chwefror 2014 I ddechrau am 10.00yb.

Os oes unrhyw ddefnydd ychwanegol sy'n ymdrin yn benodol a materion yr archwiliad ,bydd rhaid i rhain gael eu rhoi o leiaf Bythefnos cyn y sesiwn wrando berthnasol.

The Programme Officer Mr D Jones informs that the first hearing will be held on the 4th February 2014 at Llanelli Town Hall, commencing at 10.00am

If there is additional information or material that specifically addresses the matters and issues for examination as identified by the inspector ,they must be submitted at least two weeks before the relevant hearing session.

Roedd y cyngor ar ddeall bod cyfarfod trafod ardal Llanddarog yn yr wythnos gyntaf o Mis Ebrill / The council understood that the discussion regarding the Llanddarog Community Area was in the first week of April.

In view of this and the concern locally the council asked the clerk to request the planning consultant Mr Jason Evans (who composed the LDP submission report for the council) to attend the sessions appertaining to the Community Area to put forward the council views to the Inspector. It was understood that his fees would be a maximum of £600.

5. CCC Adran Trafnidiaeth / Transport Dept yn danfon gwahoddiad I seminar maent wedi trefnu ynghylch Trafnidiaeth Gyhoeddus ar y 14eg Chwefror 2014 yn Neuadd y Sir Caerfyrddin am 1.30yp. Bydd yn gyfle i gael clywed gan yr Awdurdod Lleol, Prif Gwmni Bysiau a'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol ynghylch y prif ddatblygiadau a heriau y mae'r sector yn eu hwynebu. / send an invite to a public Transport Seminar which they are hosting which is to be held on the 14th February 2014 at County Hall Carmarthen ,commencing at 1.30pm . It will be an opportunity to hear from the Local Authority , Bus Operator and the Community Transport Association about the key developments and challenges faced by the sector.

6. Dweud eich dweud ar newidiadau i'r system gynllunio

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch cynlluniau i newid y system gynllunio yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cynigion am gydweithrediad agosach rhwng cynghorau cymuned a thref ac awdurdodau cynllunio lleol, fydd yn arwain at 'gynlluniau lle' fydd â statws Canllawiau Cynllunio Atodol. .

Mae dwy ran i'r ymghynghoriad: Bil Cynllunio Drafft, fydd yn y pen draw yn arwain at y Ddeddf Gynllunio gyntaf i Gymru, a dogfen ymgynghori ehangach o'r enw *'Cynllunio Cadarnhaol: Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru'* sy'n cynnwys cynigion wedi eu hanelu at newid diwylliant cynllunio.

Mae'r ddwy ddogfen ar gael o wefan Llywodraeth Cymru (http://wales.gov.uk/consultations/planning/draft-planning-wales-bill/?skip=1&lang=cy). Dylid cyflwyno ymatebion erbyn Chwefror 26ain 2014

sef y dyddiad cau.

Os oes angen cymorth arnoch i ddeall yr hyn fydd y cynigion, a geir yn yr ymgynghoriad, yn ei olygu i'ch cyngor chi, cysylltwch â Chymorth Cynllunio Cymru trwy'r Llinell Gymorth ar 02920 625 000.

Have your say on changes to the planning system

The Welsh Government is currently consulting on plans to change the planning system in Wales. The consultation includes proposals for closer working between community and town councils and local planning authorities, resulting in 'place plans' which will have the status of Supplementary Planning Guidance.

There are two parts to the consultation: A draft Planning Bill, which will eventually become the first Planning Act for Wales, and a broader consultation document called *'Positive Planning: Proposals to reform the planning system in Wales'* which includes proposals aimed at changing the culture of planning.

Both consultation documents are available on the Welsh Government website (http://wales.gov.uk/consultations/planning/draft-planning-wales-bill/?lang=en). Responses should be submitted by the deadline of 26th February 2014.

7. Menter Cwm Gwendraeth yn danfon llythyr i ofyn os oes diddordeb mewn ail gychwyn cyfarfod o Grŵp Cynghorau Cymuned y Gwendraeth. Am nifer o resymau- yn cynnwys diffyg cefnogaeth a thoriad mewn adnoddau ,nid yw'r grwp wedi cyfarfod yn ystod 2013. Maent felly yn gofyn yn garedig I'r cyngor ystyried y posiblrwydd o atgyfodi'r grŵp yn y dyfodol.
/ write to see if there is any interest in restarting a meeting of the Gwendraeth Group of Community Councils. For various reasons including lack of support and cuts in resources ,the group has not met during 2013. They therefore respectfully request that the council consider the possibility of resurrecting the group in the foreseeable future.
Penderfynwyd ddanfon llythyr I gefnogi ail ddechrau y cyfarfodydd. / It was agreed to send a letter in support of restarting the meetings.

8. Apel Eiseddfod Genedlaethol (Ardal Llanddarog)/ National Eisteddfod Appeal (Llanddarog Committee) yn danfon gwybodaeth ei bod yn trefnnu noson gymdeithasol ar y 26fed Ebrill yn Neuadd Llanarthne am 7.30yh .Bydd Bwyd ac adloniant ar gael yn ystod y noson. Pris y Tocynnau yw £20 / Inform that they are arranging a social evening at Llanarthey Village Hall on the 26th April at 7.00pm. Food and enertainment will be provided. The ticket price will be £20.

9. Mrs M Rees secretary of Llanddarog and district WI requests permission to plant a tree in Llanddarog Village to mark their 60th Anniversary.

Gofynnwyd i'r clerc i wneud cysylltiad gyda'r WI ac i drefni cyfarfod gyda Is Bwyllgor y Cyngor./ The clerk was asked to contact the WI to set up a meeting with the councils sub committee .

10. CCC yn danfon gwybodaeth am y drefn gywir pan fydd swydd wag yn codi yn eich Cyngor Cymuned ac, yn ail, sicrhau bod y cyngor yn ymwybodol o ofynion Adran 116 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ynghylch rhoi hysbysiad cyhoeddus pan fydd swyddi yn cael eu llenwi drwy gyfethol. **/**send information and guidance on the procedure for filling a councillor vacancy . The purpose of the letter is to ensure that Community Councils are aware of the requirements of section 16 of the 'Local Government Act (Wales) Measure 2011' with regard to giving public notice where vacancies are to be filled by co-option.

11. Partneriaeth Amgylcheddol Sir Gar / Carmarthenshire Environment yn danfon gwybodaeth am seminar ar 'Newid Hinsawdd a Chydnerthu Cymunedol ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol yn Sir Gar'. Bydd y seminar yn cael ei chynnal am ddim yng Nghanolfan Halliwell ,Caerfyrddin ar y 26 Mawrth 2014 am 9.30yb. / inform that they will be hosting a free seminar on 'Climate change and Community Resilience for Carmarthenshire future generations' at the Halliwell Centre ,Carmarthen on the 26th March 2014 at 9.30am .

12. **Mrs Mair Evans ,Dolwerdd** yn danfon llythyr am gyflwr peryglus tu hwnt palmant Clos y Wennol, Porthyrhyd. /sends a letter regarding the state of the footways at Clos y Wennol ,Porthyrhyd. Gofynnwyd I'r clerk i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ac i ateb Mrs Evans. / The clerk was asked to write to the County Council and to reply to Mrs Evans

7.0 Cynllunio / Planning

Full Planning
W/29498 change of use of barn in to 2 flats for holiday accommodation at Bryn Gwendraeth, Llanddarog.

W/29608 first floor extension and alteration at 1 Dan y Banc, Mynyddcerrig.

W/29647 provision of 3No single bedroom flats within existing residential dwelling and additional retail floor area.

Outline Planning
W/29478 demolition of existing school building and construction of four dwellings (2 pairs of semi detached) at the Former Mynyddcerrig School .
W/29479 demolition of existing building and forming of two open residential sites at the Former Mynyddcerrig School .

Appeal Ref APP/M6825/A/13/2209103
Site address Llandre, Llanddarog
Information was received from the Planning Inspector that the appeal had been dismissed.

Granted
Three Residential dwellings at land adjoining Maes y Llwyn, Llanddarog

8.0 Un Llais Cymru /One Voice Wales

Yn danfon gwybodaeth am cost aelodaeth am 2014-15 . Bydd y gost yn £143 y flwyddyn (26.8p yr annedd a Codiad o £4 y flwyddyn i'r cyngor) / Inform that the cost of membership for 2014-15 will be £143 (26.8p per dwelling and an increase of £4 for the year to the council).
Penderfynwyd i dderbyn y codiad/ It was agreed to accept the rise.

Huw V Williams informed that he had attended the last area meeting of Un Llais Cymru and gave a report to the council.

9.0 Wefan y Cyngor / Council Web site

Roedd rhai gwallau / ychwaniadau wedi dod i'r golwg ac fe fydd Mrs Margaret Rees yn eu newid . Heb law hyn maer we fan wedi ei chwbwlhau ac yn fyw. / Some errors / additions had come to light and Mrs Margaret Rees will be asked to make thechanges . Apart from this the web site was finished and usable.

10.0 Pecyn Croeso / Welcome Pack

Roedd pob cynghorwr wedi derbyn copi (drafft) gyda'r cofnodion . Derbyniwyd rhai newidiadau ond yn gyffredinol roedd pawb yn hapus gyda'r ddogfen . / All councillors had received a draft copy with miniutes. Some changes were suggested but generally everyone was happy with the document.

11.0 Gwobrau'r Gymuned

Gwobr y Gymuned
Derbyniwyd ddau enwebiad am wobr y gymuned sef Mrs Meinir Richards a Mrs Angela Skym. Darllenwyd y ddau enwebiad ysgrifenedig allan yn eu cyfanrwydd gan y Cadeirydd.
Roedd y cyngor yn falch iawn fod ganddynt ddau enwebiad o safon . /

Yn dilyn pleidlais ysgrifenedig gan y Cynghorwyr penderfynwyd yn unfrydol i rhoi Gwobr y Gymuned 20013 - 2014 i Mrs Angela Skym .

Gwobr yr Ifanc
Derbyniwyd un enwebiad am wobr yr Ifanc sef Plant Ysgol Llanddarog Darllenwyd yr enwebiad allan gan y Cadeiryydd . Cytunodd y Cyngor yn unfrydol bod Plant yr Ysgol yn llawn teilwng o'r wobr .

Gofynwyd i'r clerc i ysgrifennu at Mrs Skym a Phrif Athrawes Ysgol LlanddarogI rhoi gwybod iddynt ac i'w llongyfarch .

12.Cinio Blynyddol

Rhoddodd y Cadeirydd wybod y bydd cinio y cyngor eleni yn Y Baltic, Ponthenry ar y 9fed Mai. Bydd y pris am 3 cwrs yn £14.95.
/ The Chairman informed that the Council's Annual Dinner this year will be at the Baltic, Ponthenry and the price for a 3 course meal will be £14.95.

13.0 Taliadau/ Payments

Golau'r stryd / Street Lighting £3385.87
Golau a Coeden Nadolig Porthyrhyd Christmas Tree & Lights £26.23
Menter Cwm Gwendraeth £60
Terry Jones flag rope £7.99

14.0 UFE /AOB
Dywedodd y Cyng L Youens ei bod yn ystod y Mis wedi mynd i seminar ar 'Llefydd Chwarae' gyda'r Cyngor Sir a oedd wedi body yn ddiddorol iawn / Cllr J Youens informed that she had attended a 'Playground' Seminar run by the County Council during the month and found it to be very informative and useful .

Cllr Robert Jones informed that he had attended the Public Transport seminar in County Hall ,Carmarthen on the 14th February on behalf of the council . At the meeting Mr Steve Pillinger Head of Transport CCC provided information on the National(Wales) and regional (SWWITCH) Public Transport developments and the Carmarthenshire Network Context and implications. Also Ms Betsan Caldwell from Transport Association Wales gave an address on Community Transport delivery in Wales the types of schemes they are involved in and the number of organisations / value they represent to people . Bus Operators First Cymru were also represented at the meeting by Owen Williams Traffic Manager.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 pm /The meeting finished at 9.00 pm. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 9/4/2014 am 8.00pm / The next meeting will be held on the 9/4/2014 at 8.00 pm.